

NORTH, FREDERICK JOHN (1889 - 1968), daearegwr, addysgydd, hanesydd gwyddoniaeth a churadur amgueddfa

Enw: Frederick John North

Dyddiad geni: 1889

Dyddiad marw: 1968

Priod: Ellen M. North (née Pierce)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: daearegwr, addysgydd, hanesydd gwyddoniaeth a churadur amgueddfa

Maes gweithgaredd: Addysg; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Natur ac Amaethyddiaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg

Awdur: Douglas Anthony Bassett

Ganwyd yn Llundain yn 1889. Yr oedd ei fam yn Gymraes. Gadawodd yr ysgol yn 14 oed, a chafodd ei hyfforddiant mewn daeareg mewn ysgolion nos tra'n gweithio mewn ffatri gemegau ac fel cynorthwywr mewn labordy (arddangoswr wedyn) yng Ngholeg y Brenin, Prifysgol Llundain. Cymerodd radd allanol, gydag anrhydedd dosbarth I, yn y brifysgol honno cyn ymuno â staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru, lle y bu'n gwasanaethu am 42 flynedd, i ddechrau fel ceidwad cynorthwyol adran daeareg, ac o 1919 i 1959 fel curadur yr adran; o 1959 i 1960 ef oedd curadur mygedol adran newydd diwydiant. Yr oedd ei ddiddordeb mewn daeareg a'r gwyddorau cysylltiedig yn eang fel y gwelir mewn tua 200 o erthyglau a 12 llyfr o'i waith. Rhagorai mewn ysgrifennu cynulliadau megis yn *The slates of Wales* (1925); *Coal, and the coalfields in Wales* (1926); *The evolution of the Bristol Channel with special reference to the coast of south Wales* (1929); *Limestones, their origins, distribution, and uses* (1930); *Studies in the origin of the scenery of Wales, I - The river scenery at the head of the vale of Neath* (1930); a chydya Bruce Campbell a Richenda Scott, *Snowdonia: the National Park of Wales* (1948).

Rhoes sylw arbennig i fapiau, ac y mae ei waith cyhoeddedig yn cynnwys *Geological maps: their history and development, with special reference to Wales* (1928); *The map of Wales (before 1600 AD)* (1935); a *Humphrey Lhuyd's maps of England and Wales* (1937), sy'n parhau i fod yn fonograff awdurdodol ar y testun.

Yr oedd yn un o haneswyr daeareg mwyaf gweithgar ei gyfnod. Y mae pob un o'i lyfrau cynulliadol yn cynnwys cyfoeth o ddefnydd hanesyddol. Ysgrifennodd hefyd fonograffau ar nifer o ddaearegwyr arosol y 19eg ganrif : **W. D. Conybeare**, y Deon William Buckland, Charles Lyell, ac yn arbennig H. T. de la Beche, sefydlydd y Geological Survey of Great Britain, yr Amgueddfa Daeareg Ymarferol, a'r Royal School of Mines. Cyfrannodd lawer i'r *Bywgraffiadur* Cadwodd ddiddordeb byw yn hanes diwydiant yng Nghymru, yn arbennig y diwydiannau cloddio, ac yn ei hanfod ef oedd sefydlydd yr adran ddiwydiant a sefydlwyd yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn 1958.

Yr oedd bob amser yn ymddiddori yng nghysylltiadau daeareg â phynciau eraill, fel y gwelir yn *The stones of Llandaff cathedral* (1958), *Sunken cities, some legends of the coasts and lakes of Wales* (1957), a *Mining for metals in Wales* (1962). Yr oedd yn guradur hyfedr a adeiladodd yr adran daeareg yn yr Amgueddfa ac a ysgrifennodd lawer ar waith curadur amgueddfa, yn cynnwys arweinlyfr safonol, *Geology in museums* (1939). Yr oedd yn gefnogwr brwd i alwedigaeth amgueddfa, a bu am flynyddoedd yn aelod o gyngor Cymdeithas yr Amgueddfeydd, cynllunyydd ei diploma gyntaf, ac aelod o'r cyd-bwyllgor ag Ymddiriedaeth Carnegie yn y Deyrnas Gyfunol. Yr oedd hefyd yn aelod o'r corff cenedlaethol cydweithredol dros UNESCO. Uwchlaw'r cyfan yr oedd yn addysgydd selog a chenhadwr dros ei bwnc, ac yn ddarlithydd, adolygydd a chofnodydd diflino. Gweithredai'n gyson fel daearegwr ymgynghorol i gyrff cyhoeddus ar gynlluniau cadwraeth dŵr ac anturiaethau chwarelyddol. Cydnabuwyd ei gyfraniadau drwy iddo gael ei wneud yn llywydd (ac enillydd medal aur) Sefydliad Peirianwyr De Cymru, cymrawd anrhydeddus y Sefydliad Chwareli, ac aelod o bwyllgor y Weinyddiaeth Mwynfeydd ar y diwydiant llechi. Cafodd radd D.Sc. gan Brifysgol Llundain yn 1920 am waith ymchwil ar braciopodau ffosil, O.B.E. yn 1949 'am wasanaeth i wyddoniaeth yng Nghymru', a D.Sc. Prifysgol Cymru er anrhydedd yn yr un flwyddyn pryd y dywedwyd: 'iddo ef, o raid, tŷ dehonglwr yw amgueddfa'.

Priododd Ellen M. Pierce, Ticehurst, ym mis Mai 1915. Bu farw 23 Gorffennaf 1968 yn 19 Chargot Road, Caerdydd.

Awdur

Douglas Anthony Bassett, (1927 - 2009)

Ffynonellau

Marwgofnod yn *Monthly Bulletin* Cymdeithas Amgueddfeydd, 1968

cyfeiriadau at ei waith ar de la Beche yn y rhagair i *Henry de la Beche observations on an observer* (1977) (1977)

a rhestr fer o'i gyhoeddiadau yn *Amgueddfa newyddion Amgueddfa Genedlaethol Cymru newsletter of the National Museum of Wales* (Caerdydd 1969-1976, 1985-1987,1988-1994), 15 (1973)

manyllion personol gan ei ferch, Laura North

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18640690

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwydwr
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government